

UMPA

Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

12 Medi 2012

Yr Ystafell Bwyllgor

1.0 Yn bresennol

Ben Meakin – Llywydd UMPA, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr

Geraint Edwards – Prif Weithredwr UMPA

Nansi George – Rheolwr Cyllid UMPA

Martyn Saycell – Rheolwr Gwasanaethau Aelodau UMPA

Jessica Leigh – Swyddog Addysg UMPA ac Ymddiriedolwr

Ioan Evans – Swyddog Gweithgareddau UMPA ac Ymddiriedolwr

Laura Dickens – Swyddog Cymorth i Fyfyrrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr

Carys Thomas – Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr

Huw Diprose – Ymddiriedolwr ôl-radd UMPA

Stephen Meacham – Ymddiriedolwr Allanol UMPA

1. Ymddiheuriadau

Tim Smith – Ymddiriedolwr Allanol UMPA

2. Datganiad Diddordeb

Dim.

3. Cyflwyniad gan y Cadeirydd

Croesawodd BM bawb i'r cyfarfod a chyflwyno'r Swyddogion Sabothol newydd i'r Bwrdd. Eglurodd BM ei bod wedi bod yn haf prysur iawn yn sgil adnewyddu'r siop a'r barrau. Mae cwnsela wedi symud i'r Brifysgol gan ddod i rym o 10fed Medi ac mae ein Cynghorydd Myfyrrwyr ar secondiad am dri mis i Swyddfa Ryngwladol y Brifysgol. Cafwyd newidiadau staff ar yr ochr Fasnachol – penodwyd Rheolwr Adloniant a bydd yn dechrau ar 19 Medi a chynhelir cyfweiliadau ar 13 Medi ar gyfer Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol.

Holodd SM sut y bydd yr Undeb yn dod i ben heb gael Cynghorydd Myfyrrwyr. Eglurodd BM ein bod wedi creu Canolfan Cyngor a Chynrychiolaeth sydd i'w lleoli yn yr hen ystafelloedd cwnsela, bydd Swyddog Addysg, Swyddog Lles a Chydllynydd Cynrychiolwyr Cyrsiau yno. Dywedodd MS wrth y Bwrdd ein bod wedi bod yn gweithio'n agos â Chyfarwyddwr Cymorth i Fyfyrrwyr y Brifysgol, Dr John Powell i drefnu system sesiynau galw-heibio ac apwyntiadau rhwng y ddwy adran. I gefnogi hyn, trefnwyd dau weithdy cyngor ar arian gyda'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth ac mae trafodaethau ar waith gyda Shelter Cymru i gynnig cyngor annibynnol ar dai.

4. Cymeradwyo cofnodion a gynhaliwyd 1^{af} Mai 2012

Cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 1^{af} Mai 2012 wedi'u cofnodi fel cofnod gwir ar ôl y newidiadau canlynol:

Alun Minify – camsillafu wedi'i gywiro i Alun Minifey

Tynnu'r symbol wyneb yn gwenu

Bar Bites Back – camsillafu wedi'i gywiro i Bar Kicks Back yn y fersiwn Saesneg

Cynigwyd: JL

Eiliwyd: SM

5. Adroddiad y Prif Weithredwr

Rhoddodd GE grynodedb o Adroddiad y Prif Weithredwr. Roedd ei adroddiad yn sôn am y newid enw i'r sefydliad, sefyllfa ein cyllideb, y mân adnewyddu yn y siop a'r barrau, penodi Rheolwr Adloniant a recriwtio Cyfarwyddwr Masnachol. Soniodd hefyd am drosglwyddo TUPE y Gwasanaeth Cyngori a secondiad y Cyngorydd Myfyrwyr. Rhoddodd GE y diweddara i'r Bwrdd ar ochr elusen y sefydliad a dywedodd ei bod yn flaenoriaeth bod 3^{ydd} ymddiriedolwr allanol yn cael ei recriwtio er mwyn cwblhau'r cofrestru. Awgrymodd HD ein bod yn hysbysebu ar NCVO.

6. Adroddiad y Swyddogion (Llafar)

Rhoddodd CT grynodedb llafar o weithgareddau'r swyddogion:

Carys:

- graddio UMCA
- aillysgrifennu'r polisi dwyieithrwydd
- yn cynllunio mwy o ddigwyddiadau Cymraeg yn yr Undeb, ac ymgorffori UMCA yn fwy yn yr Undeb.
- cynllunio Ffair y Glas UMCA
- wedi'n cynrychioli yn yr Eisteddfod

Laura:

- wedi mynychu cynhadledd tai Unipol i ddysgu am faterion tai yn y sector myfyrwyr
- yn llunio arolwg tai sy'n canolbwyntio ar gost darparu grŵp llywio landlordiaid.
- gweithio gyda Jess, John Harrington a'r Ganolfan Chwaraeon i greu wythnos ymwybyddiaeth o straen.
- wedi sicrhau arian ar gyfer sesiynau caffi Mind – sesiynau galw-draw anffurfiol gyda gweithwyr iechyd meddwl.

Jess:

- siartr myfyrwyr ar gyfer pob adran academaidd.
- 26 o achosion myfyrwyr
- aillysgrifennu amgylchiadau arbennig, er mwyn i fyfyrwyr fedru hunandystio eu salwch am hyd at 5 diwrnod.
- cyfarfod WNEC
- ôl-drafodaeth gyda ASA/QAA

Ioan:

- wedi cynrychioli Aber mewn cyfarfod BUCS.
- wedi trefnu'r ffeiriau chwaraeon a chymdeithas (yn gynt eleni er mwyn i'r clybiau a'r cymdeithasau beidio â cholli allan, gan olygu bod popeth wedi'i drefnu bythefnos o flaen llaw.)
- wedi trefnu Wythnos Chwaraeon, er bod anawsterau oherwydd diffyg cael Paypal yn y swyddfa gyllid.
- trefnu gêm er cof am Sean Morely (myfyriwr a fu farw'n ddiweddar).
- casglu gwybodaeth ar gyfer system MSL newydd.

7. Adroddiad Gwasanaethau Aelodau

Rhoddodd MS grynodedb o'r Adroddiad Gwasanaethau Aelodau a gyflwynwyd cyn y cyfarfod. Eglurodd y bydd Adran Gwasanaethau Aelodau nawr yn canolbwyntio ar Chwaraeon, Cymdeithasau, Gwirfoddoli a Chyngor a Chynrychiolaeth a soniodd am y diweddara am weithgareddau'r adrannau hyn.

8. Adroddiad Ariannol

Briffiodd NG y Bwrdd ar yr adroddiad a gyflwynodd ar gyfer y cyfarfod ynghyd â'r datganiadau ariannol. Oherwydd ein diffyg o £140k, esboniodd fod angen i ni ofyn i'r Brifysgol am £75k ychwanegol. Dywedodd GE ei fod wedi cyfarfod â'r Athro John

Grattan i esbonio'r sefyllfa a'r cais. Bydd mwy o wybodaeth ariannol yn cael ei darparu ynghyd ag eglurhad ar yr hyn y mae'r Undeb yn ei wneud.

9. Dangosyddion a Thargedau Perfformiad Allweddol

Cyflwynodd GE Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ac eglurodd eu bod yn galluogi staff i fonitro targedau a chynnydd yn erbyn y Cynllun Strategol. Cymeradwywyd gan y Bwrdd.

10. Adroddiad Masnachu UMPA Cyf

Rhoddodd NG grynodedb o'r adroddiad a gyflwynodd cyn y cyfarfod. Cafwyd trafodaeth ynghylch cynnwys bar coffi/brechdanau er mwyn cynyddu masnach yn ystod y dydd. Awgrymodd IE y byddai'r derbyniadau efallai yn codi wrth y bar petai gwasanaeth bwrdd yn cael ei gynnig. Bydd NG yn rhoi dadansoddiad naratif am y cyllid i'r ymddiriedolwyr bob mis. Gwnaed sylw hefyd y byddai'n help cael peiriannau cerdyn y tu ôl i'r bariâu a chytunwyd bod hyn yn parhau.

11.1 Pwyllgor Cyllid a Chyffredinol

Cytunwyd arno gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

11.2 Pwyllgor Adnoddau Dynol

Rhoddodd MS grynodedb o adroddiad Adnoddau Dynol. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r swydd cyfieithydd – dywedodd MS y byddai'n cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf Adnoddau Dynol.

12. Polisi a basiwyd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol 09.05.12

Wedi'i adolygu gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a chytuno arno.

13. Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Dywedodd GE wrth y Bwrdd fod yna le gwag i ymddiriedolwr allanol, rhoddir blaenoriaeth ar ôl Wythnos y Glas i recriwtio.

14. Unrhyw Fater Arall

Gofynnodd HD beth fyddai'r broses wrth drosglwyddo i'r ymddiriedolwr myfyrwr nesaf. Cytunwyd y byddai unrhyw bapurau yn cael eu trosglwyddo i GE ac yntau i'w trosglwyddo i'r ymddiriedolwyr a benodid nesaf. Cynhelir etholiadau ar 24/25 Medi. Manteisiodd BM ar y cyfle hwn i ddiolch i HD ar ran y Bwrdd am ei gyfraniad yn y cyfarfodydd.

15. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Dydd Mawrth 4^{ydd} Rhagfyr am 10am.